Cyngor y Gweithlu Addysg

Canllaw i arferion da o ran ‘cyffwrdd priodol’, trin ac atal

Medi 2018

1.0 Cyflwyniad

Mae ymarferwyr addysg yn fwy ofnus heddiw y bydd honiadau o niwed neu anweddustra corfforol (neu rywiol) yn cael eu gwneud yn eu herbyn, yn anad dim oherwydd y gall honiad anwir gael effaith niweidiol, barhaol ar enw da ac uniondeb unigolyn fel gweithiwr proffesiynol.

Mae cyffwrdd â dysgwyr, eu trin a'u hatal mewn modd priodol yn bwysig pan fo'n angenrheidiol a chymesur, ond mae hefyd yn peri risgiau.

Mae osgoi'r risgiau hyn, yn enwedig mewn amgylcheddau addysgol arbenigol fel ysgolion arbennig, gwaith ieuenctid a'r rheiny â phlant ifanc iawn, lle mae'r angen i gyffwrdd â dysgwr yn fynych a bron yn anochel, yn dibynnu mewn gwirionedd ar ddoethineb, hyfforddiant, gwybodaeth a phrofiad. Mae'n rhaid i bob un o'r pethau hyn chwarae rhan hanfodol mewn 'penderfyniadau ynghylch cyffwrdd' o ddydd i ddydd er mwyn osgoi sefyllfaoedd lle mae dysgwr yn bwrw amheuaeth ar eich ymddygiad tuag ato.

Bwriedir i'r canllaw hwn eich helpu i wella'ch hunan-ymwybyddiaeth yn y maes hwn o fywyd gwaith.

<u>Effaith honiadau o 'gyffwrdd amhriodol'</u>

Mae ysbrydoli dysgu yn greiddiol i rôl ymarferwyr addysg; felly defnyddir llawer o dechnegau. Er enghraifft:

- arddangosiadau ffisegol
- chwarae rôl
- hwyluso
- addysg gorfforol
- mentora 1 i 1
- atgyfnerthu, canmol, cydnabod
- chwarae rhyngweithiol
- teithiau i ffwrdd o'r safle

ac enwi dim ond ychydig. Wedi'i chydblethu â'r rôl hanfodol hon mae'r ddyletswydd gofal y mae'n rhaid i ymarferydd ei chyflawni tuag at bob dysgwr pan fo materion o bwys o ran ymddygiad a diogelu, a meddygol a bugeiliol, yn codi. O gofio'r rhain i gyd, mae'n bosibl y bydd gan ymarferydd set gymhleth o senarios lle mae cysylltiad corfforol yn ddymunol neu'n anochel, ac mae'n rhaid gwneud penderfyniadau gofalus.

Mae sefyllfaoedd sy'n arwain at gysylltiad corfforol yn yr amgylchedd dysgu hefyd yn gallu codi'n sydyn iawn, gan olygu bod yn rhaid gwneud penderfyniadau cyflym mewn ychydig o eiliadau.

Mae honiadau o gyffwrdd amhriodol, triniaeth arw neu atal 'wedi mynd o chwith' yn gallu codi mewn llawer o wahanol senarios addysgol. Gallai hyn fod oherwydd bod y dysgwr yn teimlo'n ddiffuant ei fod yn anghyfforddus neu wedi'i niweidio mewn ffordd gorfforol neu emosiynol, neu y caiff ei weld fel hyn gan bobl eraill. Nid oes angen bwriad ar ran yr ymarferydd. Beth bynnag, gall cwyn o'r fath fod yn niweidiol, yn anad dim oherwydd, lle mae'n ymwneud â phlentyn, y gallai

sbarduno gweithdrefnau diogelu yn unol â chanllawiau cenedlaethol, gan arwain at atal yr ymarferydd o'r gwaith dros dro ac ymchwiliad mewnol.

Hyd yn oed os na chaiff bwriad ei brofi, mae'n bosibl y bernir bod yr ymarferydd wedi mynd yn groes i arferion, polisïau a gweithdrefnau sefydledig, o gofio'r amgylchedd addysgol lle bu'r digwyddiad, ac anghenion unigol y dysgwr.

Hyd yn oed os na ddyfernir camymddygiad, mae'n bosibl y bydd ymarferydd yn cael bod ei enw da wedi'i niweidio oherwydd bod yr honiad wedi'i wneud o gwbl.

Gan hynny, ac fel cofrestrai, rhaid ichi gymryd cyfrifoldeb personol am eich ymddygiad corfforol. Rhaid i unrhyw gysylltiad corfforol gennych chi â dysgwr gael ei lywio gan eich hyfforddiant, gwybodaeth a phrofiad a chan y polisïau a gweithdrefnau lleol/cenedlaethol sydd ar waith ar y pryd, a'r rheiny sy'n benodol i'r dysgwr os yw hynny'n berthnasol.

2.0 Y disgwyliadau a osodir arnoch chi fel gweithiwr proffesiynol

Mae'r holl ymarferwyr sydd wedi'u cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yn ddarostyngedig i'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol sy'n nodi egwyddorion allweddol ymddygiad ac ymarfer da ar gyfer cofrestreion. Dylid darllen y canllaw hwn ar y cyd â'r Cod, y gellir ei lawrlwytho o wefan CGA.

Mae'r Cod yn dweud:

'Bydd cofrestreion yn dilyn polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau ynghylch materion megis cyfathrebu â dysgwyr, **cysylltiad corfforol â dysgwyr, rheoli ymddygiad**, cynhwysiant, mynediad a chyfle cyfartal;

2.1 Protocolau lleol a chenedlaethol

(Llywodraeth Cymru / ysgol, awdurdod lleol, sefydliad neu fusnes)

Pa un a oes gan eich cyflogwr bolisi 'dim cyffwrdd' neu 'gyffwrdd priodol', rhaid ichi gymryd cyfrifoldeb personol am gael gwybod pa ymagwedd sydd wedi'i mabwysiadu. Os nad oes unrhyw brotocol clir, gofynnwch i'ch cyflogwr nodi'r disgwyliadau mae'n eu gosod arnoch.

Mae'n bosibl y bydd protocolau wedi'u cynnwys mewn polisïau eraill hefyd, fel y rhai ar ymddygiad/disgyblaeth, trin cadarnhaol, ymyriadau corfforol, grym rhesymol, iechyd a diogelwch, rhoi meddyginiaethau, gofal personol, cymorth cyntaf, anghenion gofal iechyd. Mewn amgylchedd addysgol arbenigol, dylai fod protocolau codi a chario ar waith hefyd lle, er enghraifft, mae angen codi neu symud dysgwyr anabl.

Mae'ch cyfrifoldeb i feithrin eich ymwybyddiaeth hefyd yn berthnasol i bolisi diogelu/amddiffyn plant eich cyflogwr, a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

Nid lle Cyngor y Gweithlu Addysg yw darparu cyngor ar y fath brotocolau, ond mae'n eich annog yn gryf i fod yn gyfarwydd â'r rheiny a grybwyllir uchod, ac unrhyw ddiwygiadau iddynt.

2.2 Egwyddorion cyffredinol – eich gwarchod eich hun

Fel ymarferydd sy'n dod i gysylltiad â dysgwyr pob dydd neu'n aml, dylech:

<u>Ymgyfarwyddo â'r protocolau sydd ar waith sy'n berthnasol i'ch rôl, cyflogaeth a lleoliad addysgol, a'u deall</u>

- Darllen y polisïau'n ofalus;
- Deall eich rôl a'ch cyfrifoldebau yn y polisïau;
- Gofyn cwestiynau os nad ydych yn glir ynghylch yr hyn y disgwylir ichi ei wneud mewn rhai sefyllfaoedd penodol;
- Deall beth i'w wneud / pwy i siarad ag ef pan fo problemau neu ddigwyddiadau anarferol yn codi.

Os na roddir unrhyw brotocolau neu bolisïau ichi, gofynnwch amdanynt, gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau. Peidiwch â gadael i anwybodaeth eich gwneud yn agored i niwed.

<u>Defnyddio'r protocolau'n briodol</u>

Os:

- ydych yn anghofio pryd a sut i ddefnyddio'r protocolau;
- ydych yn gwneud rhywbeth annoeth;
- ydych yn teimlo bod sefyllfa wedi codi nad ydych wedi ymdrin â hi'n dda, a/neu a allai gael ei chamddeall;
- yw rhywbeth yn eich atal rhag defnyddio'r protocol fel y dylech;
- yw pethau'n mynd o chwith am unrhyw reswm arall; neu
- os ydych yn gweld rhywbeth yr ydych yn barnu ei fod y tu allan i brotocol,

rhowch wybod i'ch rheolwr llinell cyn gynted ag y bo modd ac ysgrifennwch eich disgrifiad chi o'r digwyddiadau.

Os na allwch roi gwybod amdano'n lleol am unrhyw reswm, siaradwch â'ch undeb llafur yn gyntaf *oni bai* bod gennych bryder am fater diogelu yn y fan a'r lle a allai beri risg i ddysgwr, ac sydd felly'n galw am ymyriad ar unwaith o dan Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

Os nad ydych yn aelod o undeb llafur, dylech geisio gofyn am gyngor oddi wrth rywun yr ydych yn ymddiried ynddo cyn datgelu unrhyw beth.

<u>Bod yn rhagweithiol</u>

- Dylech adnabod eich dysgwyr a gwybod am eu hanghenion ymddygiadol, meddygol, addysgol ac emosiynol lle bo angen;
- Dylech wybod a oes gan ddysgwyr gynlluniau / cytundebau penodol ar waith. Er enghraifft, Cynllun Trin Cadarnhaol, dull y cytunwyd arno gyda'r rhieni/gofalwyr neu'r dysgwr, a/neu broffil un dudalen yn nodi anghenion unigol y dysgwr. (Bydd hyn yn statudol i bob dysgwr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) o dan y Ddeddf ADY);

- Ystyriwch faterion diwylliannol a chrefyddol;
- Gofynnwch am hyfforddiant os nad ydych yn teimlo'n fedrus i ddilyn y polisïau sydd ar waith, er enghraifft, hyfforddiant Team Teach;
- Os na allwch ddilyn cwrs hyfforddi amserlenedig ar gyffwrdd, trin neu atal, gofynnwch i'ch cyflogwr ei ad-drefnu cyn gynted ag y bo modd. Mae hyn hefyd yn berthnasol i hyfforddiant diweddaru;
- Dylech wybod pwy sydd wedi cael hyfforddiant tebyg yn eich gweithle, a sut i roi gwybod iddo am sefyllfa os oes arnoch angen cymorth ar frys;
- Dylech ddysgu beth yw ystyr 'grym rhesymol' yng nghyd-destun eich cyflogaeth, a phryd mae'n gyfreithiol dderbyniol i'w ddefnyddio, er enghraifft i atal dysgwr rhag niweidio ei hun;
- Dylech fod yn ymwybodol o risgiau bod mewn sefyllfa 1 i 1 gyda dysgwr;
- Dylech gynnal gweithgareddau corfforol fel chwaraeon mewn mannau lle gall pobl eraill eich gweld;
- Dylech gydnabod y bydd sefyllfaoedd, o bosibl, lle mae dysgwr yn cyffwrdd â chi'n gorfforol, ac o gofio'ch hyfforddiant, gwybodaeth a phrofiad, cynllunio sut y byddech yn ymdrin â hynny o gofio'r protocolau sydd ar waith. Chi sy'n gyfrifol am gynnal ffiniau proffesiynol;
- Dylech ddeall sut mae gweithdrefnau diogelu'n gweithio yn eich cyflogaeth, ac yn genedlaethol;
- Dylech wybod beth yw'ch cyfrifoldebau o ran adrodd os yw pethau'n mynd o chwith, â phwy i siarad a pha gofnodion mae angen ichi eu creu;
- Dylech gofnodi digwyddiad yn llawn cyn gynted ag y bo modd ar ôl iddo ddigwydd; ac
- Os nad ydych yn aelod eisoes, dylech ystyried ymaelodi ag undeb sy'n berthnasol i'r gwaith yr ydych yn ei wneud.

<u>Meddwl cyn gweithredu</u>

Dylech anadlu am ychydig o eiliadau, os gallwch, er mwyn asesu'r sefyllfa ac arfarnu'r risgiau'n gywir, a dylech ddilyn y promtiau isod:

- Atgoffwch eich hun o'r protocolau sydd ar waith, a'r disgwyliadau a osodir arnoch yn hyn o beth gan eich cyflogwr;
- Cofiwch eich hyfforddiant;
- Ystyriwch beth yw ystyr cysylltiad corfforol rhesymol, priodol ac angenrheidiol yng nghyd-destun sefyllfa, a'r dysgwr;
- Ystyriwch pryd i ddefnyddio technegau sy'n cynnwys atal yn gorfforol, a phryd i beidio â'u defnyddio;
- Ystyriwch pryd mae'n dderbyniol defnyddio 'grym rhesymol' yng nghyd-destun eich cyflogaeth; ac
- Felly gweithredwch yn ddoeth mewn sefyllfa, gan gymryd yr holl faterion perthnasol i ystyriaeth;
- Os nad ydych yn teimlo'n fedrus i ymdrin ag unrhyw sefyllfa a allai arwain at gysylltiad neu ymyriad corfforol, gofynnwch am gymorth ar unwaith.

Cofio:

- eich lle fel gweithiwr proffesiynol;
- mai'ch cyfrifoldeb chi yw'ch ymddygiad;
- pwysigrwydd cynnal ymddiriedaeth a hyder proffesiynol rhyngoch chi a dysgwyr trwy gadw pellter proffesiynol;
- eich cyfrifoldeb at ddysgwyr.

3.0 Enghreifftiau o achosion mae CGA wedi ymchwilio iddynt

Mae'r enghreifftiau isod yn achosion a gyfeiriwyd at y CGA iddo ymchwilio iddynt sy'n ymwneud â chyffwrdd, trin ac atal. Mae'r rhain yn esiamplau lle mae ymarferwyr wedi mynd yn groes i'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol.

- Cydiodd cofrestrai mewn dysgwyr, eu taro, eu tynnu, eu gwthio, eu pinsio a'u bwrw gan achosi marciau coch a chleisiau;
- Cafwyd cofrestrai yn euog o ymosod am lusgo dysgwr ar draws y llawr gerfydd ei fraich;
- Defnyddiodd cofrestrai lefel amhriodol o rym trwy ddal dysgwr gerfydd y dillad o gwmpas ei wddf neu ei ysgwydd a'i wthio i fyny rhes o risiau;
- Tarodd cofrestrai ddysgwr ar ei ben a'i ddwylo gyda llyfr nodiadau yn yr ystafell ddosbarth, yn groes i'r polisi disgyblu, ar ôl i'r dysgwr wrthod dilyn cyfarwyddiadau;
- Glynodd cofrestrai ddwylo disgybl i bêl, i ddesg, i gadair gyda thâp gludiog;
- Cyffyrddodd cofrestrai yn amhriodol ag wyneb a thraed dysgwr benyw, cododd hi oddi ar y llawr, gadawodd iddi ddringo ar ei gefn, eistedd rhwng ei goesau, sefyll ar ei ddwylo a sefyll ar ei frest.

4.0 Sut y gallwn eich helpu ymhellach

- Mae CGA yn cynnig cyflwyniadau sy'n canolbwyntio ar briodoldeb i ymarfer. Os hoffech chi neu os hoffai'ch cyflogwr drefnu un yn eich ysgol neu goleg, sefydliad neu fusnes, cysylltwch â (gwybodaeth@cga.cymru);
- Gellir gweld Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol CGA ar gyfer Cofrestreion gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, a gwybodaeth am waith priodoldeb i ymarfer CGA, ar ei wefan www.ewc.wales/priodoldeb-i-ymarfer;
- Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau at y Tîm Priodoldeb i Ymarfer at priodoldebiymarfer@cga.cymru.